Eglwys yng Nghymru – Athrofa Padarn Sant
Gwybodaeth am Grantiau Cymorth Hyfforddiant

Mae Athrofa Padarn Sant, drwy Gorff Cynrychioliadol yr Eglwys yng Nghymru, yn darparu grantiau cymorth hyfforddiant tuag at gostau tai a chostau byw ymgeiswyr a noddir gan Esgob.[1]

Mae'r canllaw hwn wedi'i anelu at y categorïau canlynol o ymgeiswyr:

- **Categori A.** - Ymgeiswyr amser llawn, sy'n astudio yn Athrofa Padarn Sant, ac sydd wedi symud i Athrofa Padarn yng Nghaerdydd neu mewn eiddo rhent gerllaw er mwyn hyfforddi;

- **Categori B.** - Ymgeiswyr amser llawn, sy'n astudio yn Athrofa Padarn Sant yng Nghaerdydd, o ddydd Mercher i ddydd Gwener yn ystod y tymor ond sy'n parhau i fyw yn eu hesgobaeth ac ar leoliad yno.[2]

- **Categori C.** - Ymgeiswyr rhan-amser, sy'n astudio yn Athrofa Padarn Sant ar gyfer gweinidogaeth drwyddedig.

- **Categori D.** - Ymgeiswyr amser llawn neu ran-amser sy'n astudio mewn coleg heblaw Athrofa Padarn Sant gydag awdurdod llawn Cyngor Padarn Sant, neu'r rhai sydd â llwybr hyfforddi pwrpasol.

Mae'r tudalennau canlynol yn nodi'r cymorth sydd ar gael a dylid eu darllen ar y cyd â'r ffurflen gais, a'r cyfraddau cyfredol ar gyfer y flwyddyn academaidd hon.

Cyfrifo Grant
Ar ôl i'r ceisiadau gael eu cymeradwyo, anfonir copi atoch o'r gwaith cyfrifo sy'n ymwneud â'ch grant. Yna telir grantiau yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc ar ddiwrnod gwaith olaf pob mis.

Talu Grantiau
Ymgeiswyr Amser Llawn:
At ddibenion y grant, bernir bod y flwyddyn academaidd yn dechrau ar 1 Medi ac yn gorffen ar 31 Awst.

Bydd rhandaliad cyntaf eich grant yn dechrau ar 30 Medi ac yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc mewn rhandaliadau misol cyfartal mewn ôl-daliadau.

Bydd ymgeiswyr blwyddyn olaf yn derbyn eu taliad grant olaf ar 30 Mehefin, ac felly'n derbyn 10 mis o grant yn eu blwyddyn olaf.

Ymgeiswyr Rhan-amser
Bydd y grant o £425 yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc mewn 3 rhandaliad fel a ganlyn:

30 Medi £150; 31 Rhagfyr £150; 31 Mawrth £125.

Gall ymgeiswyr Rhan-amser hawlio costau teithio sy'n gysylltiedig â hyfforddiant **y tu allan i ardal eu gweinidogaeth**. Os yw ardal eu gweinidogaeth yn ymestyn dros ardal fawr sy'n gofyn am deithio'n sylweddol, dylai'r ymgeisydd drafod hyn gyda'i diwtor. Nid yw costau teithio i

[1] Nid yw'r grant wedi'i gynllunio i dalu dyledion.
[2] Mae hyn yn cynnwys ymgeiswyr sydd eisoes yn byw yn yr Athrofa, Caerydd neu'n atos ati

weithgareddau y byddai ymgeisydd rhan amser wedi'u hysgwyddo o'r blaen megis presenoldeb yn yr eglwys yn cael eu talu.

Bydd cost Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd, y llwybr academaidd arferol, yn cael ei dalu i ymgeiswyr hyd nes y cânt eu hordeinio/trwyddedu. Gellir talu costau llwybrau academaidd eraill y cytunwyd arnynt hefyd yn ystod hyfforddiant cychwynnol, ar gytundeb y Deon Hyfforddiant Gweinidogol Cychwynnol a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau.

Ymholiadau ynglŷn â chwblhau'r Ffurflen Gais
Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â chwblhau eich ffurflen gais, cysylltwch ag Andrew Emery yn andrewemery@churchinwales.org.uk neu 02920 348224.

Ble i Anfon Eich Ffurflenni wedi'u Cwblhau
Dylid anfon ffurflenni wedi'u cwblhau at:

Mrs Sharon Hayes
RBCIW, 2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd, CF10 5BT
E-bost: sharonhayes@churchinwales.org.uk

Cyllid ychwanegol
Yn dibynnu ar eich amgylchiadau efallai y bydd gennych hawl i gael credydau treth, gweler https://www.gov.uk/guidance/ffurflenni-cthem#4 am fwy o wybodaeth.

Cronfa ymddiriedolaeth yw'r Gronfa Ordinandiaid, sydd ar gael i ymgeiswyr amser llawn, ac mae'n darparu cyllid ar gyfer:

a) Caledi ac argyfyngau ar gyfer ordinandiaid;
b) Ordinandiaid sy'n mynd i gynadleddau; ac
c) Ordinandiaid ar leoliadau tramor.

Os oes gennych angen sy'n dod o fewn un o'r categorïau uchod, siaradwch â thiwtor.

Newidiadau i amgylchiadau personol:

Cofiwch, os bydd unrhyw newidiadau i'ch amgylchiadau personol drwy gydol y flwyddyn academaidd, mae'n ofynnol i chi hysbysu'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau o fewn 4 wythnos ar ôl unrhyw newid.

Mae Corff Cynrychioliadol yr Eglwys yng Nghymru o ddifrif ynghylch Diogelu Data. Gellir dod o hyd i wybodaeth am sut mae eich data'n cael eu cadw a sut maent yn cael eu prosesu yn: https://www.churchinwales.org.uk/cy/privacy-notice/. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen gwybodaeth ychwanegol arnoch, cysylltwch â'r Adran Gyfreithiol legal@churchinwales.org.uk neu dros y ffôn ar 02920 348200.

Eglwys yng Nghymru – Athrofa Padarn Sant
Gwybodaeth am Grantiau Cymorth Hyfforddiant

YMGEISWYR CATEGORI A.

(*Ymgeiswyr amser llawn, sy'n astudio yn Athrofa Padarn Sant ac sydd wedi symud i Athrofa Padarn yng Nghaerdydd neu i eiddo ar rent gerllaw er mwyn hyfforddi.*)

Mae gan ymgeiswyr amser llawn Categori A hawl i gael y grantiau canlynol sy'n destun prawf modd, ac a amlinellir yn Atodiad A.

I. GRANT CYMORTH HYFFORDDIANT

Mae'r Grant Cymorth Hyfforddiant yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

Rhaid i chi ddatgan yr holl incwm trethadwy personol yn Adran A y ffurflen gais ar dudalen 2. Rhaid cyflwyno copïau o gyfriflenni banc am y ddau fis blaenorol gyda'ch ffurflen gais.

Yn eich blwyddyn olaf, caiff y grant cymorth hyfforddiant ei leihau 2 fis calendr, gan fod ordeiniadau'n digwydd ym mis Mehefin.

Diystyriad Incwm

Os oes gennych unrhyw incwm trethadwy personol sy'n fwy na'r diystyriad incwm, bydd hyn yn cael ei wrthbwyso yn erbyn y grant cymorth hyfforddiant a'r grant teithio sy'n daladwy gan Athrofa Padarn. Mae'r ffigur diystyriad incwm ar gyfer ymgeiswyr yn seiliedig ar gyflog curad llai y Lwfans Personol.

II. GRANT PRIOD A PHLENTYN

Mae grant priod a grant plentyn (hyd at uchafswm o 4 plentyn) ar gael, sy'n dibynnu ar incwm y priod.

Dim ond plant dibynnol ddylai gael eu cynnwys ar y ffurflen gais. Rhowch enwau a dyddiadau geni'r holl blant dibynnol ar dudalen 1 y ffurflen gais.

Os ydych yn hawlio'r grant priod a phlentyn, rhaid i chi ddatgan cyfanswm incwm trethadwy eich priod yn Adran B ar dudalen 2 o'r ffurflen gais. Rhaid darparu tystiolaeth ychwanegol o'r holl incwm, gan gynnwys slip cyflog diweddar a chopi o gyfriflenni banc eich priod am y ddau fis blaenorol.

Cofiwch nad oes angen datgelu Budd-dal Plant y Llywodraeth ar eich ffurflen gais.

Yn eich blwyddyn olaf, caiff y grantiau priod a phlentyn eu lleihau 2 fis calendr gan fod ordeiniadau'n digwydd ym mis Mehefin.

Diystyriad Incwm

Eglwys yng Nghymru – Athrofa Padarn Sant
Gwybodaeth am Grantiau Cymorth Hyfforddiant

Os oes gan eich priod incwm trethadwy sy'n fwy na'r diystyriad incwm, caiff hyn ei wrthbwyso yn erbyn y lwfansau priod a phlentyn sy'n daladwy gan yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r ffigur disytyriad incwm yn seiliedig ar gyflog curad llai y Grant Priod.

III. Grant Teithio

Mae gan ymgeiswyr Categori A hawl i wneud cais am grant teithio ar gyfer 3 taith gron o Athrofa Padarn yng Nghaerdydd i'w Esgobaeth ym mhob blwyddyn academaidd, ar gyfradd gyfredol Cyllid a Thollau EM fel y nodir yn Atodiad , sef 45c y filltir am y 10,000 o filltiroedd cyntaf a 25c y filltir wedi hynny o fewn yr un flwyddyn dreth (y flwyddyn dreth yw 6 Ebrill 20xx i 5 Ebrill 20xx). Pan na fydd myfyriwr yn defnyddio ei drafnidiaeth breifat ei hun, ad-delir cost briodol taith ar drafnidiaeth gyhoeddus. Caiff treuliau ar gyfer y teithiau hyn eu cynnwys yn y taliadau grant misol.

Nodwch y milltiroedd o'r cyfeiriad y byddwch yn aros ynddo yn eich Esgobaeth i Athrofa Padarn yng Nghaerdydd (fel y darperir gan Google Maps) yn Adran C (tudalen 2) o'r ffurflen gais.

Ad-delir costau teithio ar gyfer lleoliadau ar wahân a gellir eu hawlio drwy Athrofa Padarn Sant yn fisol neu'n chwarterol.

IV. GRANT BYW

Mae'r Athrofa yn darparu ar gyfer yr opsiynau tai canlynol ar gyfer ymgeiswyr amser llawn: Llenwch y Cais am Grant Tai ar dudalen 3 o'r ffurflen gais.

Gall ymgeiswyr Categori A, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau, wneud cais am:

i. Llety o fewn y Coleg

Bydd yr Athrofa yn talu costau llety'r ymgeiswyr hynny sy'n byw yn Athrofa Padarn yng Nghaerdydd.

Nid oes angen i chi ddarparu unrhyw wybodaeth ariannol bellach os byddwch yn byw'n llawn amser yn Athrofa Padarn yng Nghaerdydd.

ii. Llety rhent i ymgeiswyr â theuluoedd

I'r ymgeiswyr hynny sydd â theuluoedd, darperir llety priodol a fydd yn addas i anghenion teulu'r ymgeisydd, pan fydd llety o'r fath ar gael, nid nepell o Athrofa Padarn yng Nghaerdydd, mewn tai ar rent gan yr Eglwys yng Nghymru. Rhaid trefnu llety o'r fath drwy'r Athrofa Padarn's.

Lle nad yw hyn ar gael, bydd yr Athrofa yn talu cost llety priodol a gaiff ei rentu'n breifat.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am lety at y Cyfarwyddwr Gweithrediadau.

Bydd Athrofa Padarn yn talu cyfanswm cost y rhent, oni bai bod priod yr ymgeisydd yn ennill mwy na chyflog cyfredol curad. Os yw priod yn ennill mwy na'r swm hwn, caiff y Lwfans Byw ei ostwng bunt am bunt uwchlaw y swm hwn.

Eglwys yng Nghymru – Athrofa Padarn Sant
Gwybodaeth am Grantiau Cymorth Hyfforddiant

Ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sy'n byw mewn eiddo ar rent, yn ychwanegol at y taliadau uchod, bydd Athrofa Padarn yn cyfrannu at y dreth gyngor, trethi dŵr, nwy a thrydan. Mae myfyrwyr amser llawn wedi'u heithrio rhag talu'r Dreth Gyngor (neu hawl i ostyngiad os oes oedolyn arall yn byw yn yr eiddo nad yw mewn addysg amser llawn) a bydd yr Athrofa yn darparu llythyr i'r Cyngor i gynorthwyo gyda chais ymgeisydd at y diben hwnnw.

Bydd Athrofa Padarn yn talu cost yr holl daliadau cyfleustodau, oni bai bod priod yr ymgeisydd yn ennill mwy na chyflog cyfredol curad. Os yw priod yn ennill mwy na chyflog cyfredol curad, bydd cyfanswm y Lwfans Byw yn cael ei ostwng bunt am bunt uwchlaw y swm hwnnw. Am y flwyddyn gyntaf mewn eiddo sy'n cael ei rentu, bydd taliadau am gyfleustodau yn seiliedig ar y cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer maint yr eiddo. Yn y blynyddoedd dilynol rhaid i ymgeiswyr ddarparu copïau o filiau cyfleustodau'r flwyddyn flaenorol.

Bydd Athrofa Padarn yn talu'r holl gostau gofal plant **yn gysylltiedig â gwaith**, oni bai bod priod yr ymgeisydd yn ennill mwy na chyflog cyfredol curad. Gofal plant yw hwn ar gyfer yr adegau pan fydd y ddau riant yn gweithio ac felly'n methu â gofalu am y plentyn/plant. Bydd angen i'r gofal plant gael ei ddarparu gan ddarparwr cofrestredig (ysgol, meithrinfa, gwarchodwr plant cofrestredig) a bydd angen dangos prawf o wariant. Os yw priod yn ennill mwy na chyflog cyfredol curad, bydd cyfanswm y Lwfans Byw yn cael ei ostwng bunt am bunt uwchben y swm hwn.

Bydd Athrofa Padarn bob amser yn darparu grant, yn ychwanegol at y lwfans personol, sydd o leiaf 25% o gyfanswm y costau byw a delir (heb fod yn fwy na chyflog curad). Uwchlaw'r lefel honno, mae'r grant yn destun prawf modd fel y disgrifir uchod.

V. Costau Hyfforddiant

Bydd Athrofa Padarn yn talu'r holl gostau hyfforddiant ffurfiannol y cytunwyd arnynt. Bydd yr Athrofa, hefyd, yn gyfrifol am noddi lle'r ymgeisydd ar yr astudiaeth academaidd y cytunwyd arni drwy gydol ei hyfforddiant cychwynnol. Bydd yr Athrofa yn talu darparwr yr astudiaethau yn uniongyrchol.

RHAID cyflwyno tystiolaeth lawn o'r symiau a gaiff eu hawlio. Os nad oes tystiolaeth o'r fath ar gael adeg cwblhau'r ffurflen gais, dylid amcangyfrif hyn a darparu'r dystiolaeth yn ddiweddarach, ac yna gellir ailasesu'r taliad.

Eglwys yng Nghymru – Athrofa Padarn Sant
Gwybodaeth am Grantiau Cymorth Hyfforddiant

YMGEISWYR CATEGORI B.

(*Ymgeiswyr amser llawn, sy'n astudio yn Athrofa Padarn Sant, sy'n astudio yn Athrofa Padarn yng Nghaerdydd, o ddydd Mercher i ddydd Gwener yn ystod y tymor ond sy'n parhau i fyw yn eu hesgobaeth ac ar leoliad yno.*)

Mae gan ymgeiswyr amser llawn Categori B hawl i nifer o lwfansau, sy'n destun prawf modd, ac fe'u nodir yn Atodiad A.

I. GRANT CYMORTH HYFFORDDIANT

Mae'r Grant Cymorth Hyfforddiant yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

Rhaid i chi ddatgan yr holl incwm trethadwy personol yn Adran A y ffurflen gais ar dudalen 2. Rhaid cyflwyno copïau o gyfriflenni banc am y ddau fis blaenorol gyda'ch ffurflen gais.

Yn eich blwyddyn olaf, caiff y grant cymorth hyfforddiant ei leihau 2 fis calendr, gan fod ordeiniadau'n digwydd ym mis Mehefin.

Diystyriad Incwm

Os oes gennych unrhyw incwm trethadwy personol sy'n fwy na'r diystyriad incwm, bydd hyn yn cael ei wrthbwyso yn erbyn y grant cymorth hyfforddiant a'r grant teithio sy'n daladwy gan Athrofa Padarn. Mae'r ffigur diystyriad incwm ar gyfer ymgeiswyr yn seiliedig ar gyflog curad llai y Lwfans Personol.

II. GRANT PRIOD A PHLENTYN

Mae grant priod a grant plentyn (hyd at uchafswm o 4 plentyn) ar gael, sy'n dibynnu ar incwm y priod.

Dim ond plant dibynnol ddylai gael eu cynnwys ar y ffurflen gais. Rhowch enwau a dyddiadau geni'r holl blant dibynnol ar dudalen 1 y ffurflen gais.

Os ydych yn hawlio'r grant priod a phlentyn, rhaid i chi ddatgan cyfanswm incwm trethadwy eich priod yn Adran B ar dudalen 2 o'r ffurflen gais. Rhaid darparu tystiolaeth ychwanegol o'r holl incwm, gan gynnwys slip cyflog diweddar a chopi o gyfriflenni banc eich priod am y ddau fis blaenorol.

Cofiwch nad oes angen datgelu Budd-dal Plant y Llywodraeth ar eich ffurflen gais.

Yn eich blwyddyn olaf, caiff y grantiau priod a phlentyn eu lleihau 2 fis calendr gan fod ordeiniadau'n ddigwydd ym mis Mehefin.

Diystyriad Incwm

Eglwys yng Nghymru – Athrofa Padarn Sant
Gwybodaeth am Grantiau Cymorth Hyfforddiant

Os oes gan eich priod incwm trethadwy sy'n fwy na'r diystyriad incwm, caiff hyn ei wrthbwyso yn erbyn y lwfansau priod a phlentyn sy'n daladwy gan yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r ffigur diystyriad incwm yn seiliedig ar gyflog curad llai y Grant Priod.

III. GRANT TEITHIO

Mae gan ymgeiswyr Categori B sy'n cymudo o'u cartref i Athrofa Padarn yng Nghaerdydd bob wythnos hawl i wneud cais am grant teithio ar gyfer taith gron o'u cartref i'r Athrofa yng Nghaerdydd bob wythnos ar gyfradd gyfredol Cyllid a Thollau EM fel y nodir yn Atodiad A, sef 45c y filltir am y 10,000 milltir cyntaf a 25c y filltir wedi hynny o fewn yr un flwyddyn dreth. Pan na fydd myfyriwr yn defnyddio ei drafnidiaeth preifat ei hun, ad-delir cost briodol taith ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Ni fydd cost defnyddio cwmni llogi preifat yn cael ei ad-dalu os bydd math arall o drafnidiaeth gyhoeddus ar gael.

Ad-delir costau teithio ar gyfer lleoliadau ar wahân a gellir eu hawlio drwy Athrofa Padarn Sant yn fisol neu'n chwarterol.

IV. GRANT BYW

Mae Athrofa Padarn yn darparu ar gyfer ymgeiswyr amser llawn sy'n aros yn eu cartrefi eu hunain drwy gydol eu hyfforddiant. Llenwch y Cais am Grant Tai ar dudalen 3 o'r ffurflen gais.

Mae gan ymgeiswyr Categori B hawl i'r canlynol:

i. **Taliad ar gyfer elfen llog morgais sy'n bodoli eisoes**

Bydd yr Athrofa yn talu llog y morgais, ar swm gwreiddiol y benthyciad pan brynwyd y tŷ, **ond ni fydd yr Athrofa *yn cyfrannu at ad-daliadau cyfalaf.***

Os yw'r morgais yn "fenthyciad llog yn unig", bydd yn hawdd pennu'r swm sy'n gymwys i gael cymorth;

Os yw'r morgais yn forgais ad-dalu, bydd angen didynnu'r elfen ad-dalu cyfalaf wrth wneud cais. Efallai y bydd angen gofyn i'r benthyciwr morgais am ddatganiad cyfalaf a llog.

Bydd yr Athrofa yn talu cyfanswm cost llog y morgais, oni bai bod priod yr ymgeisydd yn ennill mwy na chyflog cyfredol curad. Os yw priod yn ennill mwy na chyflog cyfredol curad, bydd y Grant Tai yn cael ei ostwng bunt am bunt uwchben y swm hwnnw.

Ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain, yn ychwanegol at y taliadau uchod, bydd yr Athrofa yn cyfrannu at y dreth gyngor, trethi dŵr, nwy a thrydan. Mae myfyrwyr amser llawn wedi'u heithrio rhag talu treth gyngor (neu mae ganddynt hawl i ostyngiad os oes oedolyn arall yn byw yn yr eiddo nad yw mewn addysg amser llawn) a bydd yr Athrofa yn darparu llythyr i'r Cyngor i gynorthwyo gyda chais ymgeisydd at y diben hwn.

Eglwys yng Nghymru – Athrofa Padarn Sant
Gwybodaeth am Grantiau Cymorth Hyfforddiant

Bydd yr Athrofa yn talu cost yr holl daliadau cyfleustodau, oni bai bod priod yr ymgeisydd yn ennill mwy na chyflog cyfredol curad. Os yw priod yn ennill mwy na chyflog cyfredol curad, bydd cyfanswm y Grant Tai yn cael ei ostwng bunt am bunt uwchlaw'r swm hwnnw. Rhaid darparu copïau o filiau cyfleustodau (a biliau treth gyngor os yw'n briodol) ar gyfer y flwyddyn flaenorol gyda'r cais am grant.

Bydd yr Athrofa bob amser yn darparu grant, yn ychwanegol at y lwfans personol, sydd o leiaf 25% o gyfanswm y costau tai a delir. Uwchlaw'r lefel honno, mae'r grant yn destun profion modd fel y disgrifir uchod.

V. Costau Hyfforddiant

Bydd Athrofa Padarn yn talu'r holl gostau hyfforddiant ffurfiannol y cytunwyd arnynt. Bydd yr Athrofa hefyd yn gyfrifol am noddi lle'r ymgeisydd ar yr astudiaeth academaidd y cytunwyd arni drwy gydol ei hyfforddiant cychwynnol. Bydd yr Athrofa yn talu darparwr yr astudiaethau yn uniongyrchol.

RHAID cyflwyno tystiolaeth lawn o'r symiau a gaiff eu hawlio gyda'r ffurflen gais. Os nad oes tystiolaeth o'r fath ar gael adeg cwblhau'r ffurflen gais, dylid amcangyfrif hyn a darparu'r dystiolaeth yn ddiweddarach, ac yna gellir ailasesu'r taliad.

Eglwys yng Nghymru – Athrofa Padarn Sant
Gwybodaeth am Grantiau Cymorth Hyfforddiant

YMGEISWYR CATEGORI C.

(Ymgeiswyr rhan-amser, sy'n astudio yn Athrofa Padarn Sant am drwydded.)

Mae gan ymgeiswyr rhan-amser Categori C hawl i:

I. GRANT CYMORTH HYFFORDDIANT

Mae'r Grant Cymorth Hyfforddiant yn daladwy bob blwyddyn ar y gyfradd a nodir yn Atodiad A.

II. GRANT TEITHIO

Mae gan ymgeiswyr Categori C hawl i wneud cais am dreuliau a gaiff eu talu am deithio mewn cysylltiad â hyfforddiant, **heblaw teithio o fewn Ardal y Weinidogaeth rydych yn byw ynddi**, ar gyfradd gyfredol Cyllid a Thollau EM fel y nodir yn Atodiad A, sef 45c y filltir am y 10,000 o filltiroedd cyntaf a 25c y filltir wedi hynny o fewn yr un flwyddyn dreth. Pan na fydd myfyriwr yn defnyddio ei drafnidiaeth breifat ei hun, ad-delir cost briodol taith ar drafnidiaeth gyhoeddus. Ni fydd cost defnyddio cwmni llogi preifat yn cael ei ad-dalu os bydd math arall o drafnidiaeth gyhoeddus ar gael. Ni thelir costau teithio i weithgareddau arferol ymgeisydd, fel presenoldeb ei eglwys ei hun.

Gellir hawlio costau teithio drwy Athrofa Padarn Sant yn fisol neu'n chwarterol.

Gall ymgeiswyr rhan-amser hawlio costau teithio sy'n gysylltiedig â hyfforddiant **y tu allan i ardal eu gweinidogaeth**. Os yw ardal eu gweinidogaeth yn ymestyn dros ardal fawr sy'n gofyn am deithio'n sylweddol, dylai'r ymgeisydd drafod hyn gyda'i diwtor. Ni thelir costau teithio i weithgareddau y byddai ymgeisydd rhan-amser wedi'u hysgwyddo o'r blaen megis presenoldeb yn ei eglwys ei hun.

Bydd cost Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd, y llwybr academaidd arferol, yn cael ei dalu i ymgeiswyr hyd nes y cânt eu hordeinio/trwyddedu. Gellir talu costau llwybrau academaidd eraill y cytunwyd arnynt hefyd yn ystod hyfforddiant cychwynnol, ar gytundeb y Deon Hyfforddiant Gweinidogol Cychwynnol a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau. Bydd yr Athrofa yn talu darparwr yr astudio yn uniongyrchol.

Cofiwch mai dim ond tudalen 1 o'r ffurflen gais y mae angen i ymgeiswyr Categori C ei llenwi.

Eglwys yng Nghymru – Athrofa Padarn Sant
Gwybodaeth am Grantiau Cymorth Hyfforddiant

YMGEISWYR CATEGORI D.

(Ymgeiswyr amser llawn neu ran-amser sy'n astudio mewn coleg heblaw Athrofa Padarn Sant gydag awdurdod llawn Cyngor Padarn Sant, neu'r rhai ar lwybrau wedi'u teilwra.)

Mae gan ymgeiswyr amser llawn Categori D hawl i nifer o lwfansau, sy'n destun prawf modd, ac fe'u nodir yn Atodiad A.

I. GRANT CYMORTH HYFFORDDIANT

Mae'r Grant Cymorth Hyfforddiant yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

Rhaid i chi ddatgan yr holl incwm trethadwy personol yn Adran A y ffurflen gais ar dudalen 2. Rhaid cyflwyno copïau o gyfriflenni banc am ddau fis blaenorol gyda'ch ffurflen gais.

Yn eich blwyddyn olaf, caiff y grant cymorth hyfforddiant ei leihau 2 fis calendr, gan fod ordeiniadau'n digwydd ym mis Mehefin.

Diystyriad Incwm

Os oes gennych unrhyw incwm trethadwy personol sy'n fwy na'r diystyraid incwm, bydd hyn yn cael ei wrthbwyso yn erbyn y grant cymorth hyfforddiant a'r grant teithio sy'n daladwy gan Athrofa Padarn. Mae'r ffigur diystyriad incwm ar gyfer ymgeiswyr yn seiliedig ar gyflog curad llai y Lwfans Personol.

II. GRANT PRIOD A PHLENTYN

Mae grant priod a grant plentyn (hyd at uchafswm o 4 plentyn) ar gael, sy'n dibynnu ar incwm y priod.

Dim ond plant dibynnol ddylai gael eu cynnwys ar y ffurflen gais. Rhowch enwau a dyddiadau geni'r holl blant dibynnol ar dudalen 1 y ffurflen gais.

Os ydych yn hawlio'r grant priod a phlentyn, rhaid i chi ddatgan cyfanswm incwm trethadwy eich priod yn Adran B ar dudalen 2 o'r ffurflen gais. Rhaid darparu tystiolaeth ychwanegol o'r holl incwm, gan gynnwys slip cyflog diweddar a chopi o gyfriflenni banc eich priod am y ddau fis blaenorol.

Cofiwch nad oes angen datgelu Budd-dal Plant y Llywodraeth ar eich ffurflen gais.

Yn eich blwyddyn olaf, caiff y grantiau priod a phlentyn eu lleihau 2 fis calendr, gan fod ordeiniadau'n digwydd ym mis Mehefin.

Diystyriad Incwm

Eglwys yng Nghymru – Athrofa Padarn Sant
Gwybodaeth am Grantiau Cymorth Hyfforddiant

Os oes gan eich priod incwm trethadwy sy'n fwy na'r diystyriad incwm, caiff hyn ei wrthbwyso yn erbyn y lwfansau priod a phlentyn sy'n daladwy gan yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r ffigur diystyriad incwm yn seiliedig ar gyflog curad llai y Grant Priod.

III. GRANT TEITHIO

Mae gan ymgeiswyr Categori D sydd wedi symud i ffwrdd o'u cartref i hyfforddi, hawl i wneud cais am grant teithio ar gyfer 3 taith gron o'r cartref i'r ganolfan hyfforddi bob blwyddyn academaidd, ar gyfradd gyfredol Cyllid a Thollau EM fel y nodir yn Atodiad A, sef 45c y filltir am y 10,000 o filltiroedd cyntaf a 25c y filltir wedi hynny o fewn yr un flwyddyn dreth. Pan na fydd myfyriwr yn defnyddio ei drafnidiaeth breifat ei hun, ad-delir cost briodol taith ar drafnidiaeth gyhoeddus. Ni fydd cost defnyddio cwmni llogi preifat yn cael ei ad-dalu os oes math arall o drafnidiaeth gyhoeddus ar gael.

Nodwch y milltiroedd o'ch cyfeiriad gwyliau i'r Coleg (fel y darperir gan Google Maps) yn Adran C (tudalen 2) o'r ffurflen gais.

IV. GRANT BYW

Mae'r Athrofa yn darparu ar gyfer yr opsiynau tai canlynol ar gyfer ymgeiswyr amser llawn: Llenwch y Cais am Grant Tai ar dudalen 3 o'r ffurflen gais.

Gall ymgeiswyr Categori D, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau, wneud cais am:

i. Llety yn y Coleg

Bydd Athrofa Padarn yn talu costau yr ymgeiswyr hynny sy'n byw yn y Coleg.

Rhowch wybodaeth am eich llety.

ii. Llety rhent i ymgeiswyr â theuluoedd

I'r ymgeiswyr hynny sy'n byw gyda'u teuluoedd, bydd Athrofa Padarn yn talu costau llety priodol sy'n addas i anghenion teulu'r ymgeisydd. Rhaid i'r myfyriwr drefnu llety o'r fath ond yn gyntaf rhaid iddo gael ei awdurdodi gan Athrofa Padarn.

Bydd Athrofa Padarn yn talu cyfanswm cost y rhent, oni bai bod priod yr ymgeisydd yn ennill mwy na chyflog cyfredol curad. Os yw priod yn ennill mwy na'r swm hwn, caiff y Lwfans Tai ei ostwng bunt am bunt uwchlaw y swm hwnnw.

Ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sy'n byw mewn eiddo ar rent, yn ychwanegol at y taliadau uchod, bydd yr Athrofa yn cyfrannu at y dreth gyngor, trethi dŵr, nwy a thrydan.

Bydd Athrofa Padarn yn talu cost holl daliadau cyfleustodau, oni bai bod priod yr ymgeisydd yn ennill mwy na chyflog cyfredol curad. Os yw priod yn ennill mwy na chyflog y curad cyfredol, caiff

y Lwfans Tai ei ostwng bunt am bunt uwchlaw y swm hwnnw. Rhaid i ymgeiswyr ddarparu copïau o filiau cyfleustodau ar gyfer y flwyddyn flaenorol gyda'r cais am grant.

Bydd yr Athrofa bob amser yn darparu grant, yn ychwanegol at y lwfans personol, sydd o leiaf 25% o gyfanswm y costau byw a delir. Uwchlaw'r lefel honno, mae'r grant yn destun prawf modd fel y disgrifir uchod.

V. Costau Hyfforddiant

Bydd Athrofa Padarn yn talu'r holl gostau hyfforddiant ffurfiannol y cytunwyd arnynt. Bydd yr Athrofa hefyd yn gyfrifol am noddi lle'r ymgeisydd ar yr astudiaeth academaidd y cytunwyd arni drwy gydol ei hyfforddiant cychwynnol. Bydd yr Athrofa yn talu darparwr yr astudiaethau yn uniongyrchol.

RHAID cyflwyno tystiolaeth lawn o'r symiau a gaiff eu hawlio gyda'r ffurflen gais. Os nad oes tystiolaeth o'r fath ar gael adeg cwblhau'r ffurflen gais, dylid amcangyfrif hyn a darparu'r dystiolaeth yn ddiweddarach, ac yna gellir ailasesu'r taliad.

Eglwys yng Nghymru – Athrofa Padarn Sant
Gwybodaeth am Grantiau Cymorth Hyfforddiant

Atodiad A:

2020-21 CYFRADDAU GRANTIAU

YMGEISWYR AMSER LLAWN

	CYFRADDAU 2020-21	
Grant Cymorth Hyfforddiant	£5,492	Diystyriad Incwm £16,434
Grant Priod	£2,316	Diystyriad Incwm £19,292
Grant Plentyn	£2,213 plentyn cyntaf £1,461 ar gyfer pob un o'r tri phlentyn nesaf	
Grant Teithio	Hyd at 10,000 milltir = 45c y filltir Dros 10,000 milltir = 25c y filltir	
Grant Tai	Elfen rhent neu log morgais, nwy, trydan, dŵr	Os yw'r priod yn ennill mwy na £21,558 (cyflog curad), mae'r lwfans tai yn cael ei ostwng bunt am bunt uwchlaw y swm hwnnw.
Cost Astudio	Costau astudio y cytunwyd arnynt a delir yn uniongyrchol i'r darparwr gan Athrofa Padarn.	

YMGEISWYR RHAN-AMSER

	CYFRADDAU 2020-21
Grant Cymorth Hyfforddiant	**Bydd £425 ynghyd â chostau astudio academaidd cymeradwy yn cael eu talu yn ystod yr hyfforddiant**
Grant Teithio	Hyd at 10,000 milltir = 45c y filltir Dros 10,000 milltir = 25c y filltir